**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**
**Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/EM/0119/21

Bethan Sayed AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chyfathrebu
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

29 Ionawr 2021

Annwyl Bethan,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Ionawr 2021 ynghylch craffu ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) drafft.

Mae'n bleser gennyf eich hysbysu bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben ar 2 Hydref 2020 a chafwyd ymatebion gan 15 o gyrff, gan gynnwys 8 o'r 9 corff y bydd y Rheoliadau'n effeithio'n uniongyrchol arnynt. Mae fy swyddogion wedi dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwnaed newidiadau i'r Rheoliadau drafft i fynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd.

Yn ogystal, daeth fy swyddogion i'ch Pwyllgor i ddarparu briff technegol ar 17 Medi 2020. Yn ystod y sesiwn honno, gwnaeth Helen Mary Jones AS, Cadeirydd dros dro y Pwyllgor, awgrym mewn perthynas â Rheoliadau. Ei barn hi oedd y dylai un sydd wedi cofrestru ('registrant)' allu trafod cwyn a wneir amdanynt yn Gymraeg gyda'u corff rheoleiddio mewn cyd-destun ehangach na dim ond yn yr achos cyfreithiol ei wrth hun (e.e. gwrandawiad addasrwydd i ymarfer). Rwy'n cytuno â'r farn hon ac mae'r Rheoliadau drafft wedi'u diwygio i wneud darpariaeth fel yr awgrymodd yr Aelod. Bydd y Rheoliadau yn gosod dyletswyddau ar y rheolwyr gofal iechyd ynghylch cwynion yn erbyn un sydd wedi cofrestru. Mae hyn yn sicrhau y byddai un sydd wedi cofrestru yn gallu defnyddio'r Gymraeg drwy gydol y broses o ddelio â chwyn yn eu herbyn, o'r drafodaeth gychwynnol gyda'r corff rheoleiddio hyd at wrandawiad addasrwydd i ymarfer ffurfiol.

Fodd bynnag, mae un mater allweddol heb ei ddatrys. Amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad y byddent yn dymuno gweld Safon sy'n gosod dyletswyddau ar reoleiddwyr i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am allu a pharodrwydd un sydd wedi cofrestru i ddefnyddio'r Gymraeg wrth drin cleifion fel y bydd person yn gallu ystyried iaith wrth ddewis ymarferwyr e.e. osteopath, optegydd neu ddeintydd. Amcan y cynnig yw cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y sector hwn drwy ddewis un sydd wedi cofrestru sy'n gallu ymarfer yn Gymraeg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n cefnogi'r amcan hwn ac rwy'n awyddus i fynd i'r afael â'r mater hwn.  Fodd bynnag, mae'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni'r amcan hwnnw yn gofyn am ystyriaeth bellach gyda'r sector a chyda Chomisiynydd y Gymraeg.

Felly, rwyf wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen i osod y Rheoliadau hyn yn ystod tymor y Senedd hwn, ond rydw i wedi gofyn i fy swyddogion barhau i ystyried y mater .  Rwy'n hapus i gyfarfod â chi fel Cadeirydd y Pwyllgor i roi diweddariad unwaith byddwn wedi canfod datrysiad ymarferol.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language